Cynllun Iaith Gymraeg Tŷ'r Cwmnïau

Paratowyd O Dan Ddeddf Yr Iaith Gymraeg 1993

dti

UN O WASANAETHAU'R DTI

Tŷ'r Cwmnïau

er gwybodaeth

PARATOWYD Y CYNLLUN HWN YN UNOL AG ADRAN 21(3) DEDDF YR IAITH GYMRAEG A CHAFODD GYMERADWYAETH LAWN BWRDD YR IAITH GYMRAEG AR 15 AWST 2005.

MAE TŶ'R CWMNÏAU WEDI MABWYSIADU'R EGWYDDOR, WRTH GYNNAL BUSNES CYHOEDDUS A GWEINYDDU CYFIAWNDER YNG NGHYMRU, Y BYDD YN TRIN Y GYMRAEG A'R SAESNEG AR Y SAIL EU BOD YN GYFARTAL. MAE'R CYNLLUN HWN YN NODI SUT Y BYDD TŶ'R CWMNÏAU'N GWEITHREDU'R EGWYDDOR HONNO WRTH DDARPARU GWASANAETHAU I'R CYHOEDD YNG NGHYMRU.

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Tŷ'r Cwmnïau yn Asiantaeth Weithredol o dan yr Adran Masnach a Diwydiant ac iddo statws Cronfa Fasnachu.

1.2 Ei weithgareddau creiddiol yw:

- corffori a diddymu cwmnïau,
- derbyn a chofrestru gwybodaeth statudol y mae'n ofynnol i gwmnïau ei chyflwyno i'r Cofrestrydd,
- trefnu i'r wybodaeth statudol honno fod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

1.3 Lleolir y Pencadlys yng Nghaerdydd, gyda swyddfa ranbarthol arall yn Llundain lle gellir manteisio ar ei wasanaethau. Ceir swyddfa ar wahân yng Nghaeredin i ddelio â chwmnïau wedi eu corffori yn yr Alban. I gyd, mae Tŷ'r Cwmnïau, fel Asiantaeth, yn cyflogi tua 1,200 o staff (sefyllfa 24 Tachwedd 2004), a'r mwyafrif o'r rheiny'n gweithio yng Nghaerdydd.

2. CYNLLUNIO A CHYFLENWI GWASANAETH

2.1 Wrth eu llunio, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn asesu'r effaith a gaiff unrhyw bolisïau a mentrau newydd ar y defnydd o'r Gymraeg.

2.2 Bydd polisïau a mentrau newydd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan y sawl sydd am wneud, ac yn symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ymdrin â'r iaith.

2.3 Bydd polisïau a mentrau newydd yn gyson â gofynion y Cynllun hwn a chymhwysir y Cynllun at bob polisi a menter newydd lle bynnag y bo hynny'n berthnasol.

2.4 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn ag unrhyw gynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun, neu a fydd yn effeithio ar Gynllun unrhyw gorff arall.

2.5 Ystyrir amodau'r Cynllun hwn wrth bennu unrhyw ffurflenni statudol newydd, newid systemau cyfrifiadur neu gyflwyno unrhyw newidiadau gweithredol eraill. Pan

eir ati i weithredu unrhyw newidiadau o'r fath, rhoir ystyriaeth lawn i sut y gellid gwella ymhellach ar lefel y gwasanaeth i gwsmeriaid Cymraeg.

2.6 Ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel a fo'n briodol ynglŷn ag unrhyw gynigion i newid y Cynllun, ac ni newidir mo'r Cynllun heb eu cydsyniad.

2.7 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn sicrhau bod staff sy'n cyfrannu at lunio polisi yn gwbl ymwybodol o'r Cynllun hwn a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

2.8 Bydd yr Ymgynghorydd Polisi/Gwasanaeth Cymraeg, sy'n gyfrifol am gadw golwg ar weithrediad y Cynllun, yn sicrhau, drwy roi cyfarwyddyd priodol a threfnu monitro addas, fod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu bodloni. Bydd hyn yn cynnwys ystyried pob polisi a menter newydd yng ngoleuni'r Cynllun a gwneud yn siŵr eu bod yn ei gymryd i ystyriaeth, a gofalu bod staff yn ymwybodol o oblygiadau'r Cynllun.

3. CYFLENWI GWASANAETH

3.1 Drwy gymhwyso amodau'r Cynllun hwn, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn sicrhau bod cwsmeriaid sy'n dewis cynnal eu busnes â ni drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael gwneud felly. Sicrhawn hyn drwy:

- Ddelio'n brydlon â phob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, gan anfon ateb Cymraeg lle bo angen ymateb;
- Sefydlu rhwydwaith o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn gwneud yn siŵr fod modd i ni ddelio â galwyr teleffon ac ymwelwyr sydd am ddelio â ni yn Gymraeg;
- Darparu rhestr o rifau teleffon mewn nodiadau canllaw a deunydd hybu priodol arall fel y gall cwsmeriaid Cymraeg drafod yn uniongyrchol ag aelod o'r staff sy'n siarad yr iaith;
- Darparu nodiadau canllaw, ffurflenni a chyhoeddiadau allweddol eraill ar ffurf ddwyieithog. Mae meini prawf ar gyfer darparu deunydd dwyieithog wedi eu pennu o fewn adrannau penodol y Cynllun;
- Mabwysiadu mentrau gwasanaeth a mentrau system eraill a fydd yn hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg wrth ddelio â Tŷ'r Cwmnïau;
- Adnabod y cwmnïau hynny sydd am gynnal eu busnes â ni yn Gymraeg.

3.2 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i dynnu sylw cwsmeriaid at y ffaith ei fod yn cynnig gwasanaeth Cymraeg i rai sy'n siarad yr iaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith honno yn ein nodiadau canllaw a'n cylchgrawn i gwsmeriaid "The Register";
- Rhoi gwybod i aelodau'n Grwpiau Ffocws;
- Darparu cysylltiad â'r tudalen gwasanaethau Cymraeg ar dudalen hafan ein gwefan.

4. SAFONAU ANSAWDD

4.1 Bydd Pwyllgor Iaith Gymraeg Tŷ'r Cwmnïau, a sefydlwyd yn Awst 2001, yn parhau i gadw golwg ar weithrediad y Cynllun ac i fonitro'i berfformiad. Bydd ansawdd y gwasanaethau a roir i gwsmeriaid Cymraeg yn cydymffurfio ag ymrwymiadau presennol o dan Siarter y Dinesydd yn ogystal â phob un o dargedau eraill Tŷ'r Cwmnïau. Bydd datganiad i'r perwyl hwn yn ymddangos mewn dogfennau perthnasol megis yr Adroddiad Blynyddol a'r Ddogfen Nod Siarter lle bo hynny'n briodol.

4.2 Sicrheir bod staff yn ymwybodol o'r Cynllun a darperir copïau ar eu cyfer.

5. DELIO Â GOHEBIAETH

5.1 Mae Tŷ'r Cwmnïau yn cynnig gwasanaeth i ddelio â gohebiaeth Gymraeg a bydd:

- Yn achos gohebiaeth unigol, yn ateb yn brydlon yn Gymraeg os oes angen ateb;
- Yn cwrdd â'i holl dargedau gohebu arferol o ran delio â llythyrau cwsmeriaid;
- Yn gohebu yn Gymraeg yn sgil unrhyw gyfathrebu yn Gymraeg wyneb yn wyneb neu dros y teleffon;
- Yn anfon ateb dros dro yn Gymraeg lle bo'n debygol y bydd unrhyw oedi cyn ateb yn llawn;
- Yn cynhyrchu fersiynau dwyieithog o'i nodiadau canllaw allweddol a chysylltiadau eraill i'r cwsmeriaid hynny sydd wedi mynegi dymuniad am ddelio â ni'n ddwyieithog;
- Yn anfon llythyrau dwyieithog awtomataidd safonol wedi eu creu drwy gyfrifiadur. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - llythyrau atgoffa ynglŷn â dynesiad dyddiadau ffeilio gwybodaeth;
  - llythyrau'n rhoi gwybod i gwmni am ddiffyg yn eu trefn ffeilio;
  - llythyrau ac anfonebau'n rhoi gwybod i gwmnïau am osod cosb ffeilio hwyr;
  - llythyrau ac anfonebau'n rhoi gwybod am or-dalu neu ddiffyg talu ffioedd ffeilio statudol;
  - llythyrau'n rhoi gwybod i gwmnïau sydd â chyfeiriad swyddfa gofrestredig yng Nghymru fod Tŷ'r Cwmnïau yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.

5.2 Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad hwn, bydd Tŷ'r Cwmnïau:

- Yn parhau i roi cyfarwyddyd i staff ynglŷn â thrin gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg;
- Yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chyfarwyddyd i staff Cymraeg sy'n delio â gohebiaeth yn yr iaith;
- Yn parhau'r cytundeb lefel-gwasanaeth â gwasanaeth cyfieithu i sicrhau amserlen foddhaol ar gyfer gwaith cyfieithu er mwyn ei gwneud yn bosibl delio â gohebiaeth Gymraeg o fewn ein targedau arferol o ran gohebiaeth gyhoeddus;
- Yn parhau i ystyried pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'n systemau cyfrifiadur a'r drefn ar gyfer trin allbwn er mwyn awtomeiddio'r ffordd bresennol o gynhyrchu fersiynau dwyieithog o lythyrau safonol;

- Yn ystyried ymarferoldeb gweithredu system ar gyfer cynnig fersiynau dwyieithog o lythyrau safonol yn awtomatig i bob swyddog cwmni sydd â chyfeiriad preswyl arferol yng Nghymru erbyn 31 Rhagfyr 2006.

6. CYSYLLTIADAU TELEFFON

6.1 Mae Tŷ'r Cwmnïau yn cynnig gwasanaeth i alwyr teleffon sydd am drafod eu busnes yn Gymraeg. Rhoir i'n cyfnewidwyr a'n holl staff lyfrau ffôn mewnol yn rhestru aelodau staff sy'n siarad Cymraeg, ynghyd â meysydd eu gwybodaeth arbenigol, fel y gall cwsmeriaid sydd am drafod eu busnes yn Gymraeg gael eu trosglwyddo iddynt yn ddi-oed.

6.2 Ni chynigiwn ateb pob galwad deleffon yn ddwyieithog, gan ein bod yn gorff cenedlaethol sydd wedi ei leoli yng Nghymru ac yn darparu gwasanaethau ledled Prydain Fawr ac nad yw'n briodol cyfarch pob cwsmer yn ddwyieithog. Ond i hwyluso'r gwasanaeth i gwsmeriaid Cymraeg, fe fyddwn:

- Yn parhau i fod â rhif pwrpasol i gwsmeriaid Cymraeg ei ddefnyddio i gysylltu ag aelod staff sy'n siarad yr iaith;
- Yn parhau i roi cyhoeddusrwydd i unrhyw rif pwrpasol o'r fath mewn nodiadau canllaw, ar y Gofrestr, ar benawdau llythyr dwyieithog ac mewn llyfrau ffôn;
- Wrth ddisodli'r system switsfwrdd teleffon presennol, yn ystyried a oes meddalwedd briodol a fydd yn gallu adnabod galwyr sydd am ddilyn eu galwad ffôn yn Gymraeg

6.3 Ymhob achos, unwaith i ni ddeall bod galwr wedi dewis trafod busnes â ni yn Gymraeg, byddwn yn parhau:

- I drosglwyddo'r galwr i aelod staff sy'n siarad Cymraeg, naill ai gan y cyfnewidydd neu gan yr aelod staff a fydd yn ateb yr alwad;
- Os nad oes aelod staff ar gael i siarad Cymraeg, rhoir i'r galwr ddewis rhwng cwblhau'r alwad yn Saesneg a chael ei alw'n ôl gan aelod staff sy'n siarad Cymraeg cyn gynted ag y bydd un ar gael;
- Os yw'r ymholiad o natur gymhleth a thechnegol ac yn un lle byddai'n rhaid i ni geisio cyngor proffesiynol, gwahoddir y galwr i gyflwyno'r ymholiad yn ysgrifenedig. Wedyn, caiff ateb Cymraeg ysgrifenedig yn unol â'n trefn arferol ar gyfer trin gohebiaeth. Mae hyn yn cydymffurfio â'n harfer gyffredin o ran pob ymholiad cymhleth a thechnegol, ni waeth am iaith ei gyflwyno.

7. YMWELWYR Â'R SWYDDFA

7.1 Mae cyfleusterau archwilio cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd, lle gall aelodau'r cyhoedd ymchwilio i gofnodion cwmnïau, ar agor yn ystod oriau busnes arferol rhwng 9am a 5pm. Mae Tŷ'r Cwmnïau yn cynnig gwasanaeth i gwsmeriaid Cymraeg – rhai sydd am ddefnyddio'r cyfleustra archwilio a chyfarwyddwyr neu gynrychiolwyr cwmnïau sydd am drafod eu busnes yn bersonol yn Gymraeg. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau:

- I ddarparu aelod staff sy'n siarad Cymraeg drwy ragdrefnu ymweliadau â chwsmeriaid sy'n dymuno trafod eu busnes yn Gymraeg;
- I ddarparu arwyddion dwyieithog yn nhiroedd y swyddfa, yn y maes parcio ac ym mannau cyhoeddus y swyddfa ei hun;
- I sicrhau trefn ymadael ddwyieithog yn rhannau cyhoeddus y swyddfa;
- I ddarparu datganiadau polisi dwyieithog, megis polisi Iechyd a Diogelwch Tŷ'r Cwmnïau, y polisi amgylcheddol a'r polisi cyfle cyfartal yn rhannau cyhoeddus y swyddfa;
- I hwyluso dewis iaith, drwy hysbysu cwsmeriaid fod modd iddynt ddelio â ni yn Gymraeg drwy gynnwys yr wybodaeth hon mewn nodiadau canllaw a deunydd cyhoeddusrwydd arall a thrwy osod hysbysiadau yn rhannau cyhoeddus y swyddfa.

8. CYSYLLTIADAU ERAILL Â THŶ'R CWMNÏAU

8.1 Wrth i Dŷ'r Cwmnïau ddatblygu ei gysylltiadau technolegol â chwmnïau a chwsmeriaid, er enghraifft drwy ffeilio gwybodaeth mewn dulliau electronig, trefniadau corffori gan ddinasyddion a gwybodaeth i gwmnïau, byddwn yn parhau i ystyried pa ddarpariaeth y gellir ei gwneud ar gyfer cwsmeriaid sydd am gynnal eu busnes â ni yn Gymraeg.

8.2 Byddwn yn cyflawni hyn drwy roi sylw priodol i amodau'r Cynllun hwn wrth ddatblygu systemau a dulliau cysylltu newydd a'r rhai presennol ar gyfer ein cwsmeriaid.

8.3 Wrth i wefan Tŷ'r Cwmnïau ddatblygu, byddwn yn cynnwys gwybodaeth ddwyieithog, megis nodiadau canllaw, ar y safle. Gweler adran 27.

9. CYHOEDDIADAU A DIGWYDDIADAU

9.1 Mae Tŷ'r Cwmnïau yn darparu amrediad eang o nodiadau canllaw a fwriedir i helpu cwmnïau a'u swyddogion i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol, ac i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau a gynigir gan Dŷ'r Cwmnïau. Yn fwyaf arbennig, cyhoeddwn nodyn canllaw dwyieithog penodol ar gyfer cwmnïau Cymreig, gan roi manylion gofynion sylfaenol y Deddfau Cwmnïau y mae'n rhaid i gwmnïau gydymffurfio â nhw, ynghyd â manylion y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau.

9.2 Mae llyfrynnau canllaw eraill sy'n gyffredinol gymwys i bob cwmni (megis canllaw ar ofynion datgelu-gwybodaeth y Deddfau Cwmnïau) ar gael ar ddiwyg dwyieithog. Fe barheir i estyn y diwyg hwn i lyfrynnau eraill o gymhwyster cyffredinol wrth eu hadolygu neu eu creu.

9.3 Ar wahân i Nodiadau Canllaw, mae Tŷ'r Cwmnïau hefyd yn cynhyrchu deunydd gwybodaeth gyffredinol arall ar gyfer cwmnïau a'r cyhoedd. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i gynhyrchu deunydd yng nghyswllt safonau gwasanaeth, mynediad at y gwasanaeth a'r drefn gwyno ar ddiwyg dwyieithog yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Ystyrir cyhoeddiadau eraill wrth eu datblygu neu eu hadolygu.

9.4 Bydd unrhyw arolwg o gyhoeddiadau Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i ystyried ffactorau fel crynoder, statws, dull dosbarthu neu oes yr eitem dan sylw ar ein silffoedd cyn trefnu argraffu'r ddogfen.

9.5 Bydd unrhyw gyhoeddiadiadau dwyieithog yn parhau i gael eu cynhyrchu ar ddiwyg dwyieithog cefn-wrth-gefn, ac eithrio lle byddai fersiwn cyfun cefn-wrth-gefn yn drwsgl neu'n rhy swmpus – y pryd hwnnw, gallai fod yn briodol cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

9.6 I sicrhau eu cyhoeddi yr un pryd a bod pob cyhoeddiad dwyieithog ar gael yr un mor rhwydd, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i fabwysiadu trefn gynllunio briodol gyda chyfieithwyr, cysodwyr, argraffwyr ac unrhyw asiantaethau allanol eraill sy'n chwarae rhan yn y cyhoeddi a'r dosbarthu.

9.7 Ni fydd cost y fersiynau dwyieithog o gyhoeddiadau yn uwch na chost y fersiwn Saesneg lle codir tâl amdanynt.

9.8 Nid yw Tŷ'r Cwmnïau yn cynnal nac yn galw cyfarfodydd cyhoeddus. Ond mae'n trefnu cyfres reolaidd o sioeau gwybodaeth ac arddangosfeydd teithiol a fwriedir i gynyddu ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau statudol sydd ar gwmnïau ac i hybu'r gwasanaethau gwybodaeth a gynigiwn. Lle cynhelir sioeau neu arddangosfeydd pen-ffordd o'r fath yng Nghymru, byddwn yn parhau i sicrhau:

- Trefnu i gopïau o bob cyhoeddiad a gwybodaeth ddwyieithog a gyhoeddir ar y pryd gan Dŷ'r Cwmnïau gael eu harddangos a bod ar gael i gwsmeriaid Cymraeg;
- Bod aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael mewn digwyddiadau o'r fath i ddelio â chwsmeriaid Cymraeg;
- Bod pob arwydd cyhoeddus a greir gan Dŷ'r Cwmnïau ar gyfer y digwyddiad yn ddwyieithog.

9.9 Ni threfnir i eitemau fel ein cylchgrawn i gwsmeriaid "The Register", ein Hadroddiad Blynyddol, ein Cynllun Busnes na'n Cynllun Datblygu fod ar gael yn ddwyieithog gan fod y galw tebygol am fersiynau o'r fath yn isel ac na fyddai'n gost-effeithiol i'w cynhyrchu. Fodd bynnag, lle cyhoeddwn erthyglau neu wybodaeth yn "The Register" a fyddai o ddiddordeb arbennig i'n cwsmeriaid Cymraeg, gwnawn hynny ar ffurf ddwyieithog.

10. CYFLWYNO GWYBODAETH STATUDOL I'R COFRESTRYDD

10.1 Yn unol ag adran 30 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg, caiff cwmnïau gorffori yn Gymraeg. Fel y cyfryw, gall cwmnïau y mae eu Memorandwm Cymdeithasiad yn dweud bod eu swyddfa gofrestredig i'w lleoli yng Nghymru, ddewis cyflwyno'r dogfennau canlynol yn Gymraeg yn unig. Bydd y Cofrestrydd yn parhau i gomisiynu cyfieithiad i'r Saesneg i'w roi ar y cofnod cyhoeddus ochr yn ochr â'r gwreiddiol:

- Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad;
- Cyfrifon blynyddol;
- Penderfyniadau arbennig;
- Rhoi gwybod am ymddiswyddiad archwilwyr ariannol.

10.2 Yn achos corffori cwmni sydd i fod â'i swyddfa gofrestredig yng Nghymru ac sy'n cyflwyno'i Femorandwm a'i Erthyglau Cymdeithasiad yn Gymraeg, rhoir tystysgrif gorffori Gymraeg yn awtomatig. Wedyn, bydd cofnod cyhoeddus y cwmni'n dangos y dystysgrif Gymraeg ar y cyd â fersiwn Saesneg. Lle cyflwynir gwybodaeth yn Saesneg, yn yr iaith honno y bydd yn ymddangos ar y gofrestr.

10.3 Ar ben hyn, mae nifer o ffurflenni allweddol sy'n ofynnol o dan y Deddfau Cwmnïau i roi gwybod i'r Cofrestrydd am ddigwyddiadau arbennig, neu sy'n rhan o'r drefn adrodd blynyddol, ar gael ar ffurf ddwyieithog a gellir eu cyflwyno yn Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhoi gwybod am benodiad, ymddiswyddiad neu newid manylion cyfarwyddwyr ac ysgrifenyddion;
- Rhoi gwybod am newid cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni;
- Rhoi gwybod am glustnodi cyfrannau;
- Y ffurflen flynyddol – ciplun o fframwaith cyfalaf a rheolaeth y cwmni ar ddyddiad penodol bob blwyddyn.

Gyda'i gilydd, mae'r ffurflenni hyn ar eu pennau eu hunain yn cynrychioli 60% o'r holl ddogfennau a gyflwynir yn flynyddol i Dŷ'r Cwmnïau.

Wrth adolygu ffurflenni statudol yn y dyfodol, byddwn yn parhau i ystyried a ddylid pennu ffurflenni ychwanegol ar ffurf ddwyieithog, gan ddibynnu ar faint o ddefnyddio sydd arnynt, a lle pennir fersiynau dwyieithog, a ddylem gynhyrchu cyfieithiad Cymraeg o'r rheoliadau sy'n dod â nhw i rym.

11. Y DREFN ORFODI

11.1 Rhaid i bob cwmni gyflwyno gwybodaeth statudol arbennig i'r Cofrestrydd bob blwyddyn. Y dogfennau allweddol dan sylw yw ffurflen flynyddol a chyfrifon blynyddol y cwmni, y gellir eu cyflwyno yn Gymraeg, a cheir darpariaeth o dan y Ddeddf Cwmnïau i swyddogion cwmnïau sy'n methu cydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol gael eu herlyn yn y Llys Ynadon. Yn achos swyddogion cwmni sydd â swyddfa gofrestredig yng Nghymru ac sydd am i unrhyw achos erlyn o'r fath gael ei gynnal yn Gymraeg, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i ofalu:

- Bod llythyrau atgoffa, llythyrau methu-cydymffurfio a llythyrau rhybuddio am erlyn wedi eu hanfon yn ddwyieithog at swyddogion y cwmni dan sylw;
- Bod y wŷs i ymddangos yn y llys yn cael ei hanfon yn ddwyieithog;
- Bod ei gyfraniad at weithrediadau'r llys yn cael ei wrando a'i gynnal yn Gymraeg.

12. WYNEB CYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

12.1 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i fabwysiadu arddull a hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog wrth ddelio â'i gwsmeriaid Cymraeg neu gynhyrchu cyhoeddiadau ar eu cyfer.

13. HUNANIAETH GORFFORAETHOL

- Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i ddarparu penawdau llythyr, penawdau ffacs a slipiau cyfarch Cymraeg;
- Bydd y rhain yn cynnwys fersiynau Cymraeg o enw'r corff, ei slogan corfforaethol, ei gyfeiriad a gwybodaeth safonol arall;
- Parheir i gyfarwyddo staff i ddefnyddio penawdau llythyr wrth ohebu yn Gymraeg;
- Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i ddarparu logo dwyieithog lle bo hynny'n briodol.

14. ARWYDDION A GWYBODAETH ARALL AR Y SAFLE

14.1 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i sicrhau:

- Darparu arwyddion a rhybuddion dwyieithog o fewn tiroedd y swyddfa, y maes parcio a mannau cyhoeddus y swyddfa ei hun yng Nghymru;
- Bod pob arwydd a rhybudd dwyieithog o'r fath yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg;
- Lle darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, y byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

15. HYSBYSIADAU I'R WASG

15.1 Lle bo hysbysiadau i'r Wasg i gael eu cynnwys mewn papurau newydd wedi eu lleoli yng Nghymru, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i gyhoeddi hysbysiadau o'r fath ar ffurf ddwyieithog.

16. HYSBYSEBU A CHYHOEDDUSRWYDD, HYSBYSIADAU SWYDDOGOL

16.1 Lle bydd Tŷ'r Cwmnïau yn cynnwys unrhyw hysbysebion, cyhoeddusrwydd neu hysbysiadau swyddogol mewn papurau newydd wedi eu lleoli yng Nghymru, bydd yn parhau i gyhoeddi hysbysiadau o'r fath ar ffurf ddwyieithog.

17. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

17.1 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i sicrhau bod mannau gweithredol yn cael digon o siaradwyr Cymraeg a chanddynt y cymwysterau priodol, er mwyn gallu darparu gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

17.2 Bydd swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol yn parhau i gael eu pennu a'u dynodi fel y cyfryw wrth recriwtio i'r swydd arbennig. Gan ddibynnu ar lefel y medr sydd eisiau ar gyfer y swydd, gweithredir mesurau hyfforddi priodol, a llunnir disgrifiadau swydd yn unol â hynny.

17.3 Bydd y gwasanaethau rheoli, hyfforddi a phersonél yn parhau i wneud yn siŵr fod y rhaglen yn cael ei gweithredu a'i monitro. Lle bo nifer yr aelodau Cymraeg o'r staff yn disgyn islaw'r lefel sydd eisiau i fodloni rhwymedigaethau'r Cynllun hwn, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn ceisio cynyddu'r nifer naill ai drwy:

- Ystyried penodi rhagor o swyddogion Cymraeg i'r staff; neu drwy
- Annog aelodau presennol o'r staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu medrau fel y gallant gynnig lefel gwasanaeth sy'n gymesur â gofynion y Cynllun hwn.

17.4 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i gynnwys fel rhan o ddisgrifiad swyddi aelodau Cymraeg o'r staff gyfrifoldeb cyffredinol am ddelio â materion beunyddiol a'r polisi cyffredinol fel yr effeithiant ar gwsmeriaid Cymraeg. Wrth ymdrin â materion o'r fath, câi'r person cyfrifol ei gefnogi gan rwydwaith presennol yr aelodau staff Cymraeg.

17.5 Wrth i'r gwasanaeth Cymraeg ddatblygu a bod anghenion busnes yn newid, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn ystyried sefydlu tîm bach o swyddogion Cymraeg i ddelio â materion beunyddiol. Câi'r tîm bach hwn ei reoli gan yr aelod staff Cymraeg sy'n gyfrifol am ddelio â materion beunyddiol a'r polisi fel yr effeithiant ar gwsmeriaid Cymraeg.

18. DYSGU CYMRAEG

18.1 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i gefnogi staff sydd am ddysgu Cymraeg. I gefnogi'r amcan hwn, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn gweithredu strategaeth hyfforddiant Cymraeg erbyn Rhagfyr 2005. Bydd y strategaeth hon yn amlinellu rhaglen hyfforddi fydd yn arwain at gymhwyster NVQ lefel 3.

18.2 Bydd unrhyw aelodau staff di-Gymraeg sy'n mynegi dymuniad am ddysgu Cymraeg yn parhau i gael eu hannog i wneud felly. Bydd y cyfleusterau sydd ar gael yn cael eu tynnu i'w sylw yn yr un ffordd â'r cyfleusterau dysgu eraill a gynigir gan Dŷ'r Cwmnïau. Gwneir trefniadau priodol i ganiatáu iddynt ddilyn cyrsiau hyfforddi/addysgiadol addas sy'n arwain at gymhwyster NVQ lefel 3. Wrth asesu anghenion hyfforddiant staff o'r fath, rhoir ystyriaeth i:

- Lefel y llithrigrwydd a'r gallu ieithyddol sydd eisiau ar gyfer y swydd;
- Pa gyrsiau sydd addasaf i ddiwallu'r anghenion hyfforddi penodol;
- Sut orau i fanteisio ar y medrau a enillir.

18.3 Bydd y cymorth a rydd Tŷ'r Cwmnïau yn cynnwys darparu:

- Dosbarthiadau Cymraeg i ddechreuwyr i'w cynnal yn Nhŷ'r Cwmnïau;
- Pecynnau Hunan-ddysgu (e.e. Linguaphone);
- Cefnogaeth ariannol ar gyfer cyrsiau Addysg Bellach drwy dalu ffioedd cwrs, cost gwerslyfrau a chostau cysylltiedig eraill.

Mae'r darpariaethau hyn yn unol â'n polisi arferol o ran addysg bellach a chânt eu hymgorffori i'n Cynllun Hyfforddi.

18.4 Parheir i gynnig i aelodau staff presennol sy'n siarad Cymraeg gyrsiau gloywi a chyrsiau hyfforddi eraill sydd â'r nod o wella'u gwybodaeth am yr iaith a'u gallu i'w defnyddio er lles y sefydliad. Nod hyfforddiant o'r fath yw gwneud yn siŵr fod aelodau Cymraeg o'r staff yn gallu:

- Sgwrsio'n rhugl ag ymwelwyr, galwyr teleffon ac mewn cyfarfodydd;
- Deall a chyfieithu gohebiaeth a dogfennau Cymraeg yn rhwydd, gan ei gwneud yn bosibl gweithredu'n ddi-oed;
- Golygu a gwirio dogfennau a gohebiaeth a anfonir gan ei swyddfa ei hun, er mwyn gwneud yn siŵr fod cyfieithwyr wedi cyfleu'r neges gywir.

18.5 Parheir i drefnu i ganllawiau fod ar gael i reolwyr, yn pennu o dan ba amgylchiadau y gellir caniatáu i staff gael amser rhydd yn ystod oriau gwaith i ddilyn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg priodol. Bydd yr aelod staff sy'n gyfrifol am weithrediad cyffredinol y gwasanaeth Cymraeg beunyddiol yn ystyried ceisiadau am hyfforddiant o'r fath ac yn rhoi cyngor polisi i reolwyr ac i'r rhai sy'n gyfrifol am drefnu'r hyfforddiant.

19. RECRIWTIO

19.1 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau:

- I groesawu ceisiadau gan Gymry Cymraeg i ymuno â gweithlu Tŷ'r Cwmnïau;
- I'w gwneud yn un o amodau cyflogaeth y person lle penodir rhywun di-Gymraeg i swydd lle mae'r gallu i siarad yr iaith yn hanfodol, ei fod yn dysgu Cymraeg i'r safon angenrheidiol o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno ymlaen llaw, gyda chefnogaeth lawn Tŷ'r Cwmnïau;
- Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn datblygu strategaeth medrau iaith i ddod i adnabod a mynd i'r afael ag anghenion iaith byd busnes drwy hyfforddi a recriwtio erbyn 31 Mawrth 2006.

20. TREFNIADAU Â THRYDYDD PARTÏON

20.1 Lle bo unrhyw wasanaethau a ddarperir gan Dŷ'r Cwmnïau yn cael eu contractio allan, bydd Tŷ'r Cwmnïau'n gwneud yn siŵr fod y cytundebau neu'r trefniadau yn gyson ag amodau'r Cynllun. Sicrheir bod contractwyr sy'n gyfrifol am wasanaethau penodol yn ymwybodol o amodau'r Cynllun a'r rhwymedigaethau y mae'n eu gosod arnynt o ran darparu gwasanaethau Cymraeg. Er mwyn gweithredu'r Cynllun gyda golwg ar gontractwyr, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau naill ai:

- I wneud yn siŵr fod y contractwyr eu hunain yn cadw at ofynion y Cynllun, ac i gyflwyno systemau monitro priodol; ac
- I ddarparu gwasanaethau ategu priodol ei hun er mwyn sicrhau bod y contractwyr yn cydymffurfio â'r Cynllun; neu
- I dderbyn y cyfrifoldeb ei hun am ddarparu gwasanaeth Cymraeg lle na fydd, am unrhyw reswm, yn briodol nac yn ymarferol i'r contractydd ddarparu gwasanaeth o'r fath.

Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn datblygu strategaeth medrau iaith i ddod i adnabod a mynd i'r afael ag anghenion iaith byd busnes drwy hyfforddi a recriwtio erbyn 31 Mawrth 2006.

20.2 Yn ychwanegol, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau:

- I ddarparu gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer staff sy'n delio ag asiantau a chontractwyr;
- I bennu'r gofynion, mewn dogfennau tendro, o ran defnyddio'r iaith Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau;
- I fonitro perfformiad asiantau a chontractwyr ac yn mynnu adroddiadau perfformiad rheolaidd ganddynt.

21. MONITRO'R CYNLLUN

21.1 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i gyflwyno systemau addas ar gyfer monitro gweithrediad y Cynllun yn ogystal â'n perfformiad ein hun. Bydd yn bodloni'r ymrwymiad hwn drwy sicrhau:

- Bod Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i fonitro'n gyson weithrediad y Cynllun a'i ymgymeriadau;
- Bod unrhyw bolisïau, systemau, dulliau gweithredu a chyhoeddiadau newydd yn gydnaws ag amodau'r Cynllun;
- Bod yr amserau ymateb o ran delio â gohebiaeth Gymraeg yn cael eu monitro yn ôl y targedau, a bod aelodau Cymraeg o'r staff ar gael ar gyfer cyfarfodydd ac i ddelio ag ymwelwyr;
- Bod ein delwedd gorfforaethol yn bodloni'r ymrwymiadau a luniwyd o dan y Cynllun hwn o ran gohebiaeth, cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunydd cyhoeddedig arall;
- Bod gweithrediad y mesurau staffio a hyfforddi a nodir o dan y Cynllun yn cael eu monitro ar sail gyfundrefnus a pharhaol;
- Y cynhelir arolygon cyfnodol ymhlith cwsmeriaid Cymraeg ynglŷn ag amrediad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan Dŷ'r Cwmnïau;
- Bod rhwydd hynt i gwsmeriaid Cymraeg wneud awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth a roir;
- Bod asiantau a chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau ar ran Tŷ'r Cwmnïau yn ymwybodol o'r Cynllun a'i ofynion ac y cymerir camau priodol i gydymffurfio â'r Cynllun;
- Bod y cynnydd a wneir yn ôl amserlen y Cynllun yn cael ei fonitro;
- Bod amlder a natur unrhyw gwynion ynglŷn â'r gwasanaeth Cymraeg yn cael eu monitro.

21.2 Bydd y Prif Weithredydd a'r Cofrestrydd Cwmnïau yn parhau'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun. Rhoir cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth hon ymhlith ein holl staff, asiantau, contractwyr a'r cyhoedd.

21.3 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i fabwysiadu trefn gwynion effeithiol i ddelio ag unrhyw gŵyn ynghylch gweithredu'r Cynllun. Y man cyswllt cychwynnol fydd y swyddog sy'n gyfrifol am weithrediad beunyddiol y Cynllun, gyda hawl apelio at y Prif Weithredydd a Bwrdd yr Iaith Gymraeg os na all y person hwnnw fodloni'r gŵyn. Yn y pen draw, gellir atgyfeirio'r gŵyn i sylw Dyfarnydd Cwynion Annibynnol Tŷ'r Cwmnïau neu Aelod Seneddol yr etholydd unwaith y chwiliwyd pob dull a modd arall heb ddatrys y gŵyn. Mae copi o drefn gwynion safonol Tŷ'r Cwmnïau, a ddilynir gan y drefn hon hithau, ar gael drwy wneud cais.

21.4 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn cyflwyno diweddariadau chwarterol rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gan ddisgrifio'r cynnydd a wnaed yn ôl y targedau, ynghyd â gweithrediad y Cynllun a natur a nifer unrhyw gwynion a ddaeth i law ynglŷn â'r ffordd y gweithredir y Cynllun. Paratoir y diweddariadau ar fformat y cytunir arno rhwng Bwrdd yr Iaith a Thŷ'r Cwmnïau mewn cyfarfodydd rheolaidd.

21.5 Byddwn yn paratoi, ac yn diweddaru yn barhaus **cynllun gweithredu** manwl, gan nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu yn weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

22. TARGEDAU

22.1 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i fonitro gweithrediad y Cynllun o ran y targedau canlynol:

- Rhoi ateb i ohebiaeth Gymraeg o fewn yr un nod amser ag ar gyfer pob cwsmer arall;
- Rhyddhau cyhoeddiadau dwyieithog a rhai Cymraeg/Saesneg ar wahân yr un pryd;
- Trefnu i aelodau staff Cymraeg fod ar gael ar gyfer cyfarfodydd â chwsmeriaid sydd am gynnal eu busnes yn Gymraeg.

23. HWYLUSO'R CYNLLUN

23.1 Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd, rhediad llyfn a gweithrediad priodol y Cynllun, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i wneud yn siŵr:

- Fod yr ymrwymiadau a'r trefniadau a nodir o dan y Cynllun wedi cael sêl bendith Prif Weithredydd Tŷ'r Cwmnïau a phawb arall sy'n gyfrifol am weithredu gofynion y Cynllun;
- Y bydd un o'r uwch-swyddogion (y Cyfarwyddwr Polisi a Chynllunio) yn gyfrifol am gydgysylltu a hwyluso'r Cynllun, gan wneud rheolwyr adran unigol yn gyfrifol am weithredu'r darnau hynny o'r Cynllun sy'n gymwys iddynt hwythau'n uniongyrchol;
- Bod staff Tŷ'r Cwmnïau yn ymwybodol o ofynion y Cynllun a sut mae'n effeithio ar y sefydliad, ac y rhoir iddynt gyfarwyddyd a nodiadau canllaw priodol;
- Y trefnir i gopïau o'r Cynllun fod ar gael i staff;
- Bod unrhyw systemau cyfrifiadur neu systemau newydd eraill a gyflwynir gan y sefydliad yn rhoi ystyriaeth i angen gwasanaeth Cymraeg effeithiol;
- Y caiff gwasanaethau cyfieithu o ansawdd uchel eu neilltuo er mwyn sicrhau darpariaeth gymwys a phrydlon.

24. CYHOEDDI'R PERFFORMIAD YN ÔL Y TARGEDAU

24.1 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn cyhoeddi ei berfformiad o ran gofynion y Cynllun. Cyhoeddir yn ei gylchgrawn i gwsmeriaid, "The Register", fanylion am:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad;
- Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg;
- Nifer y swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol;
- Nifer y cwmnïau cofrestredig sydd wedi gofyn am wasanaeth dwyieithog.

AMSERLEN

25.1 Oni nodir fel arall, mae darpariaethau'r Cynllun hwn eisoes yn weithredol neu fe gânt eu gweithredu o'r dyddiad y cymeradwyir y Cynllun gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

26. LEFEL BRESENNOL Y GWASANAETH

26.1 Mae Tŷ'r Cwmnïau ar hyn o bryd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau dwyieithog wrth ddelio â chwsmeriaid sydd am gynnal eu busnes ysgrifenedig â ni yn Gymraeg:

- Bydd aelodau Cymraeg o'r staff yn llunio cyfieithiad cychwynnol o lythyrau a dderbynnir yn Gymraeg er mwyn prysuro darparu ateb.

Mae'r rhan fwyaf o'n gohebiaeth gyfrifiadurol awtomataidd erbyn hyn yn cael ei hanfon yn ddwyieithog i gwmnïau a'u swyddogion sydd wedi gofyn am wasanaeth Cymraeg.

26.2 Lluniwyd cytundeb lefel gwasanaeth â Gwasanaeth Cyfieithu'r DTI, ein gwasanaeth cyfieithu cyfredol. Mae hyn yn sicrhau yr anfonir ateb i ohebiaeth Gymraeg o fewn y nodau amser arferol a osodwyd ar gyfer gohebiaeth arall.

26.3 Bydd galwyr teleffon sydd am gynnal eu busnes yn Gymraeg yn parhau i gael eu trosglwyddo i aelodau Cymraeg o'r staff sydd â'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol i ddelio â'r mater.

26.4 Gall ymwelwyr sydd am gynnal eu busnes yn Gymraeg wneud trefniadau gydag aelodau staff Cymraeg.

26.5 Gellir cyflwyno llawer dogfen allweddol yn Gymraeg heb fod angen cyfieithiad i'r Saesneg, ac mae ffurflenni statudol allweddol wedi eu pennu ar ffurf ddwyieithog a gellir eu llenwi yn Gymraeg.

26.6 Bydd dogfennau a gyflwynir i Dŷ'r Cwmnïau yn Gymraeg yn cael eu prosesu gan aelodau staff Cymraeg a all drafod â chwsmeriaid yn Gymraeg os bydd ymholiadau.

26.7 Mae nodiadau canllaw allweddol bellach ar gael ar ffurf ddwyieithog.

26.8 Mae arwyddion ar safle'r swyddfa, yn y maes parcio ac o fewn y swyddfa ei hun ar ffurf ddwyieithog, gan roi'r un amlygrwydd i'r ddwy iaith.

27. DATBLYGIADAU'R DYFODOL

27.1 Bydd systemau cyfredol ar gyfer cynhyrchu llythyrau atgoffa, llythyrau methu-cydymffurfio a llythyrau cosb ffeilio hwyr a anfonir i gwmnïau sydd wedi dweud ei bod yn well ganddynt ddelio â ni yn Gymraeg yn cael eu gwella i ddarparu fersiynau dwyieithog o bob gohebiaeth o'r fath yn awtomatig erbyn 31 Mawrth 2006.

27.2 Bydd arolwg cyffredinol o'n trefniadau gohebu a newidiadau i system y prif cyfrifiadur yn sicrhau bod unrhyw ohebiaeth awtomataidd na chynhyrchir yn ddwyieithog eisoes yn cael ei chynhyrchu felly erbyn diwedd 2007.

27.3 Cynigir gwasanaeth llythyr safonol dwyieithog i bob cwmni sydd â'i swyddfa gofrestredig yng Nghymru erbyn Mawrth 2006, a hynny:

- Drwy ddosbarthiad post unwaith-yn-unig ymhlith cwmnïau ar y gofrestr sydd â swyddfa gofrestredig yng Nghymru, gan eu gwahodd i fanteisio ar wasanaeth dwyieithog Tŷ'r Cwmnïau;

- Drwy anfon llythyr awtomataidd dwyieithog i bob cwmni newydd gorffori sydd â swyddfa gofrestredig yng Nghymru, gan eu gwahodd i fanteisio ar wasanaeth dwyieithog Tŷ'r Cwmnïau.

27.4 Bydd gwasanaeth WebFiling ar gael i gwmnïau Cymraeg sydd am ddefnyddio gwasanaeth o'r fath erbyn diwedd Ionawr 2006.

27.5 Bydd gwasanaeth WebCheck, yn cyflwyno gwybodaeth am gwmnïau, ar gael i gwsmeriaid Cymraeg sydd am ddefnyddio gwasanaeth o'r fath erbyn Rhagfyr 2005.

27.6 Bydd cyfarwyddyd i'n staff ynglŷn â thrin gohebiaeth a galwadau teleffon yn Gymraeg yn parhau i gael ei ddosbarthu'n rheolaidd.

27.7 Caiff pecynnau rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer Microsoft Office 2003 a Windows XP eu dosbarthu ymhlith staff Cymraeg wrth i systemau cyfrifiadur Tŷ'r Cwmnïau ddod i allu cynnal y feddalwedd. Bydd eitemau meddalwedd eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac a grewyd i gefnogi pobl Gymraeg eu hiaith sy'n defnyddio cyfrifiaduron personol yn cael eu hasesu gyda golwg ar eu cyflwyno wrth iddynt ddod ar gael a bod systemau TG Tŷ'r Cwmnïau yn dod i allu cynnal meddalwedd o'r fath.

28. DATBLYGIADAU PARHAOL

28.1 Parheir i adolygu nodiadau canllaw a'r wybodaeth arall a ddarperir yn unol ag ymrwymiadau'r Cynllun,

28.2 Parheir i ystyried pennu fersiynau newydd o ffurflenni statudol ar ffurf ddwyieithog. (Gweler paragraff 10.3).

28.3 Bydd y drefn recriwtio yn parhau i roi ystyriaeth i anghenion ieithyddol unrhyw swydd benodol a hysbysebir, gan gyfeirio'n briodol at y medrau angenrheidiol.

28.4 Parheir i gynnig hyfforddiant parhaol i aelodau staff presennol sy'n siarad Cymraeg er mwyn lledu a gwella'u medrau wrth ddefnyddio'r iaith er lles Tŷ'r Cwmnïau.

29. CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN A'R GWASANAETH CYMRAEG

29.1 Rhoir cyhoeddusrwydd i argaeledd y Cynllun yn ein cylchgrawn i gwsmeriaid "The Register", mewn nodiadau canllaw ac mewn hysbysiadau priodol i'r Wasg pan fydd y Cynllun wedi ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.

29.2 Anfonir copïau o'r Cynllun at bob cwmni sydd wedi dweud ei bod yn well ganddynt gynnal eu busnes â ni yn Gymraeg. Bydd copïau hefyd ar gael yn rhwydd drwy'r post i unrhyw un sy'n gwneud cais, a chan ein Canolfan Gwybodaeth yn Nhŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd. Dylai ceisiadau ysgrifenedig am gopïau, neu unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r Cynllun, gael eu cyfeirio at:

Lee Jones
Ymgynghorydd Polisi/Gwasanaeth Cymraeg
Gwasanaethau Cwsmeriaid
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

E-bost: latjones@companieshouse.gov.uk

Ffôn 029 2038 0065
Ffacs 029 2038 0336